# Swydd Ddisgrifiad

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

Ein Dyfodol. Rhagoriaeth. Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. Cynhwysiad. Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. Cydweithio. Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. Trawsnewidiad. Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. Cynaliadwyedd. Cliciwch yma.

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Adran** | Campws a Lle |
| **Adran** | |
| **Teitl y Swydd** | Cyfarwyddwr Campws a Lle |
| **Yn atebol i** | Prif Swyddog Cyllid a Gweithredu |
| **Yn gyfrifol am** | Pennaeth Ystadau, Prosiectau Cyfalaf, Rheoli Cyfleusterau, Cynaliadwyedd, Gwasanaethau Campws, Eiddo Masnachol a Chyflawni Buddion |
| **Gradd** | Uwch (lefel 2) |

## Prif Atebolrwydd

Bydd y Cyfarwyddwr Campws a Lle yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer ystâd ffisegol y Brifysgol, datblygiad campws, agenda cynaliadwyedd a gweithgareddau creu lleoedd, gan sicrhau fod ein campws, ein cyfleusterau a'n seilwaith yn galluogi cyflawni Gweledigaeth a Strategaeth Wrecsam 2030 yn weithredol.

Bydd deiliad y swydd yn arwain y gwaith o drawsnewid ystad y Brifysgol yn ased cynaliadwy, cynhwysol a chynhyrchiol yn fasnachol sy'n darparu profiadau eithriadol i fyfyrwyr, staff, partneriaid a chymunedau wrth gefnogi ymchwil, menter, arloesedd ac effaith ddinesig.

Bydd yn gweithredu fel prif gynghorwr proffesiynol y Brifysgol ar strategaeth ystadau, datblygiad cyfalaf, adfywio campws, cynaliadwyedd, buddsoddi mewn seilwaith a masnacheiddio'r ystad, gan sicrhau fod asedau ffisegol y Brifysgol yn cyfrannu'n uniongyrchol at gynaliadwyedd ariannol a llwyddiant y sefydliad yn y tymor hir. Mae'r swydd hon yn cyd-fynd ag uchelgais y Brifysgol i greu lleoedd sy'n meithrin arloesedd, masnacheiddio, menter gan raddedigion a thwf economaidd.

Bydd y Cyfarwyddwr Campws a Lle yn defnyddio cydweithredu fel yr egwyddor sy'n cysylltu profiad myfyrwyr, dysgu yn y byd go iawn, cynaliadwyedd, ymchwil, menter, masnacheiddio a chenhadaeth ddinesig. Bydd yn creu lleoedd a phartneriaethau sy'n dod â phobl ynghyd i gyflawni uchelgeisiau Wrecsam 2030. Bydd yn gweithio mewn partneriaeth ag IS i sicrhau integreiddio cydlynol a di-dor o'n hystâd ffisegol a digidol er mwyn cynnig profiad rhagorol i'n staff a'n myfyrwyr.

Bydd yn arwain y gwaith o ddatblygu a chyflwyno Strategaeth Campws a Lle ar draws y Brifysgol sy'n integreiddio ystadau, seilwaith digidol, cynaliadwyedd, diogelwch, masnacheiddio a phrofiad y myfyrwyr o fewn un weledigaeth gydlynol ar gyfer dyfodol y Brifysgol.

## Tasgau Allweddol

**Arwain yn Strategol**

- Datblygu a chyflwyno Strategaeth Campws a Lle sy'n cyd-fynd â gweledigaeth ac amcanion strategaeth Wrecsam 2030.
- Arwain y gwaith o ddatblygu uwch-gynllun campws sy'n cefnogi dysgu, ymchwil, menter, twf myfyrwyr ac ymgysylltiad cymunedol.
- Sicrhau fod yr ystad yn cefnogi rôl y Brifysgol fel prifysgol ddinesig fodern a sefydliad angor i Ogledd Cymru.
- Darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer rhaglenni cyfalaf mawr a phrosiectau adfywio campws.

**Darparu Profiad Ardderchog i Fyfyrwyr**

- Arwain datblygiad campysau, cyfleusterau ac amgylcheddau dysgu sy'n cefnogi uchelgais y Brifysgol i ddarparu profiad rhagorol sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr a chyflawni amcanion Strategaeth Wrecsam 2030.
- Sicrhau bod amgylchedd ffisegol y Brifysgol yn adlewyrchu ei hymrwymiad i ragoriaeth, cynhwysiant, cydweithio, trawsnewid a chynaliadwyedd, gan greu lleoedd lle mae pob myfyriwr yn teimlo'n gartrefol, ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i fod yn gallu llwyddo.
- Hyrwyddo dyluniad hygyrch a chynhwysol ar draws holl ardaloedd yr ystad, gan sicrhau fod cyfleusterau, gwasanaethau a datblygiadau campws yn cefnogi anghenion poblogaeth myfyrwyr amrywiol a meithrin ymdeimlad cryf o berthyn a lles.
- Datblygu a chynnal mannau dysgu, cymdeithasol a chymunedol o ansawdd uchel sy'n gwella ymgysylltiad, lles, cyfradd cadw a llwyddiant myfyrwyr.
- Gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr academaidd i greu amgylcheddau dysgu modern, hyblyg ac sydd wedi'u galluogi gan dechnoleg, sy'n cefnogi dysgu rhyngddisgyblaethol, profiadol a seiliedig ar heriau.
- Sicrhau bod yr ystad yn cefnogi ymrwymiad y Brifysgol i ddysgu yn y byd go iawn yn weithredol drwy ddatblygu cyfleusterau sy'n wynebu'r diwydiant, canolfannau arloesi, lleoliadau menter, labordai arbenigol ac amgylcheddau cydweithredol sy'n cysylltu myfyrwyr â chyflogwyr, busnesau, ymchwilwyr a phartneriaid cymunedol.
- Creu campysau sy'n gwasanaethu fel amgylcheddau dysgu byw, gan alluogi myfyrwyr i gymhwyso gwybodaeth yn ymarferol, datblygu sgiliau proffesiynol ac ennill profiadau gwirioneddol sy'n gwella cyflogadwyedd a gallu entrepreneuraidd.

- Ymgysylltu'n weithredol â myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr a phartïon allweddol sydd â diddordeb er mwyn sicrhau fod lleisiau myfyrwyr yn llywio cynllunio'r campws, penderfyniadau buddsoddi a datblygu gwasanaethau.
- Cefnogi creu cymunedau campws bywiog sy'n hyrwyddo lles, ymgysylltiad diwylliannol, y Gymraeg a diwylliant Cymru, cyfranogiad dinesig a chyfleoedd dysgu a pherthyn
- Sicrhau fod buddsoddiad yn seilwaith y campws yn cyfrannu'n uniongyrchol at well canlyniadau i fyfyrwyr, boddhad myfyrwyr, llwyddiant myfyrwyr graddedig ac enw da'r Brifysgol fel prifysgol ddinesig fodern.

**Creu Lleoedd a Datblygiad Dinesig**

- Gosod campysau'r Brifysgol fel catalyddion ar gyfer creu lleoedd a datblygiad economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.
- Arwain y gwaith o greu amgylcheddau croesawgar, cynhwysol ac ysbrydoledig sy'n cryfhau cysylltiad y Brifysgol â chymunedau, busnesau a phartneriaid yn y sector cyhoeddus.
- Cefnogi datblygiad ardaloedd arloesi, canolfannau menter a mannau cydweithredol sy'n dod â phartneriaid addysg, diwydiant a dinesig ynghyd.
- Sicrhau bod profiad campws integredig yn cael ei ddarparu sy'n cwmpasu cyfleusterau, gwasanaethau, diwylliant, lles, hygyrchedd, cynaliadwyedd a chysylltedd digidol.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, a diwylliant a threftadaeth Cymru o fewn amgylchedd y campws.

**Masnacheiddio a Datblygu Asedau**

- Datblygu a gweithredu Strategaeth Masnacheiddio Ystad sy'n cael y gwerth a'r defnydd mwyaf o asedau'r Brifysgol.
- Nodi cyfleoedd i gynhyrchu incwm cynaliadwy drwy dir, adeiladau a seilwaith drwy:

  - partneriaethau masnachol;

  - datblygu eiddo;

  - man arloesi a menter;

  - cynadleddau a digwyddiadau;

  - defnydd diwylliannol a chymunedol;

  - llety myfyrwyr;

  - cyfleoedd cydleoli diwydiant;

  - cyfleusterau ymchwil ac arloesi.
- Arwain ar y gwaith o greu mannau menter ac arloesi sy'n cefnogi busnesau newydd, busnesau bach a chanolig, busnesau graddedig a buddsoddiad mewnol.
- Arwain datblygiad strategol portffolio llety myfyrwyr y Brifysgol, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn cefnogi recriwtio, cadw myfyrwyr, profiad myfyrwyr a chynaliadwyedd ariannol.

- Gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i ddenu buddsoddiad a chyllid i ddatblygiadau strategol ar y campws.
- Gyrru elw masnachol wrth ddiogelu cenhadaeth ddinesig a buddiannau hirdymor y Brifysgol.
- Gyrru effeithlonrwydd, gwerth a chyflawni buddion

**Prosiectau Cyfalaf a Seilwaith**

- Arwain y gwaith o gynllunio a chyflawni rhaglenni buddsoddi cyfalaf mawr.
- Sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni ar amser, o fewn y gyllideb a'u bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol.
- Cynnal rhaglen fuddsoddi dreigl sy'n mynd i'r afael â chyflwr yr ystad, cyfleoedd twf a gofynion y dyfodol.
- Sicrhau cyllid a buddsoddiad allanol lle bynnag y bo modd i gefnogi datblygiad yr ystad a'i seilwaith.

**Cynaliadwyedd a Sero Net**

- Arwain strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol y Brifysgol ac uchelgeisiau sero net.
- Ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd ar draws yr holl weithgareddau datblygu a gweithredol ystadau.
- Gyrru gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni, lleihau carbon a pherfformiad amgylcheddol.
- Sicrhau bod cynaliadwyedd amgylcheddol ac ariannol yn parhau i fod yn ganolog wrth wneud penderfyniadau.
- Cyfrannu at geisiadau am gyllid a buddsoddiad allanol i ariannu gwaith cyfalaf sydd â'r nod o ddatgarboneiddio'r ystad.

**Rhagoriaeth Weithredol**

- Goruchwylio rheoli ystadau, gwasanaethau cyfleusterau, iechyd a diogelwch, cydymffurfiaeth a gweithrediadau campws.
- Goruchwylio rheoli contractau gyda darparwr arlwyo allanol.
- Rheoli perthynas â GSL – is-gwmni diogelwch.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol sy'n esblygu sy'n ymwneud â diogelu'r cyhoedd, diogelwch a pharatoi ar gyfer argyfyngau.
- Sicrhau bod ystad y Brifysgol yn parhau i fod yn ddiogel, yn hygyrch, yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn addas at y diben.
- Gyrru gwelliannau o ran defnyddio gofod ac effeithlonrwydd gweithredol.
- Datblygu diwylliant o welliant parhaus a gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

**Partneriaeth ac Ymgysylltu â Phartneriaid sydd â Diddordeb**

- Datblygu perthnasoedd cryf gydag awdurdodau lleol, asiantaethau llywodraeth, buddsoddwyr, busnesau a phartneriaid cymunedol.
- Cynrychioli'r Brifysgol yn allanol ar ystadau, seilwaith, adfywio a materion cynaliadwyedd.
- Cefnogi cyfleoedd partneriaeth strategol sy'n gysylltiedig â datblygu campws a thwf rhanbarthol.

## Dyletswyddau Cyffredinol

Byddwch yn sicrhau bod systemau a gweithdrefnau rheoli priodol ar waith er mwyn diwallu'ch dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau iechyd a diogelwch a nodir ym mholisi iechyd a diogelwch y Brifysgol. Yn benodol, byddwch yn sicrhau bod asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal mewn cysylltiad â pheryglon sylweddol ac yr ymgymerir ag arolygon diogelwch o leiaf unwaith y flwyddyn, ym mhob gweithle dan eich rheolaeth chi.

Cyfrifoldeb y gweithwyr yw rhoi Polisi Cyfle Cyfartal y Brifysgol ar waith o fewn eu maes cyfrifoldeb eu hunain ac yn eu hymddygiad cyffredinol.

Mae gan yr holl staff gyfrifoldeb dros hyrwyddo gofal cwsmer o safon yn eu meysydd cyfrifoldeb eu hunain.

Rhaid i staff fod yn ymwybodol o ymrwymiad y Brifysgol i Gynaliadwyedd.

Rhaid i bob aelod o staff hyrwyddo ymddygiad iach ac iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol

Disgwylir i ddeiliaid swyddi gydweithredu â'r broses Adolygu Datblygiad Proffesiynol, gan gymryd rhan wrth osod amcanion er mwyn cynorthwyo gyda monitro perfformiad a datblygiad yr unigolyn.

Byddwch yn asesu anghenion hyfforddiant a datblygiad pob aelod o staff dan eich rheolaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi'n ddigonol mewn perthynas â'u cyfrifoldebau gwaith.

Dyletswyddau perthnasol eraill sy'n gymesur â gradd y swydd, a all gael eu neilltuo gan y Rheolwr, mewn cytundeb â deiliad y swydd. Ni ddylid gwrthod cytundeb o'r fath yn afresymol.

Mae'r cyfrifoldebau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y swydd ddisgrifiad hon yn rhai nodweddiadol; nid ydynt yn gynhwysfawr. Gellir addasu dyletswyddau a chyfrifoldebau mewn trafodaeth â deiliad y swydd.

Disgwylir i'r holl ddeiliaid swyddi yn y Gyfarwyddiaeth allu cynnig cymorth ar draws pob maes, y tu hwnt i'w tîm uniongyrchol, ar gais y Cyfarwyddwr ac yn gymesur â'u sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad.

## Adolygu

Mae hwn yn ddisgrifiad o'r swydd adeg ei chyhoeddi. Mae'n arfer gan y Brifysgol o bryd i'w gilydd i adolygu a diweddaru disgrifiadau swydd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu natur gyfredol y swydd a gofynion y Brifysgol yn gywir, ac i ymgorffori newidiadau rhesymol pan fo angen, mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd.

# Manyleb Person

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

**Teitl y Swydd:** **Cyfarwyddwr Campws a Lle**

Er mwyn cael eich rhoi ar y rhestr fer, mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn diwallu pob un o'r meini prawf hanfodol a hynny o'r meini prawf dymunol ag sy'n bosibl. Pan fydd gennym nifer fawr o geisiadau sy'n diwallu'r holl feini prawf hanfodol, byddwn wedyn yn llunio'r rhestr fer gan ddefnyddio'r meini prawf dymunol.

## Meini Prawf Dethol

| | Priodoleddau | Eitem | Meini Prawf Perthnasol | Dull adnabod Dull | Pwysigrwydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Sgiliau a Galluoedd | 1.1 | Bod yn hyrwyddwyr amlwg o werthoedd y Brifysgol. | Ff, C | H |
| | | 1.2 | Arwain gydag uchelgais, uniondeb ac arloesedd. | Ff, C | H |
| | | 1.3 | Cydbwyso cyfle masnachol gyda phwrpas dinesig. | Ff, C | H |
| | | 1.4 | Meithrin perthnasoedd mewnol ac allanol cryf. | Ff, C | H |
| | | 1.5 | Hyrwyddo diwylliant o ragoriaeth, cynhwysiant, cydweithio, trawsnewid a chynaliadwyedd. | Ff, C | H |
| | | 1.6 | Profiad amlwg o gyflawni prosiectau cyfalaf cymhleth a thrawsnewid sefydliadol o fewn sefydliad aml-gampws neu sefydliad cymhleth mawr. | Ff, C | H |
| | | 1.7 | Llwyddiant amlwg wrth gynhyrchu incwm masnachol o eiddo neu asedau seilwaith. | Ff, C | H |
| 2 | Gwybodaeth Gyffredinol ac Arbenigol | 2.1 | Gwybodaeth gref am ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, cydymffurfio a chynnal a chadw adeiladau gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i God UUK a Chyfraith Martyn. | Ff, C | H |
| 3 | Addysg a Hyfforddiant | 3.1 | Gradd neu gymhwyster proffesiynol cyfatebol mewn Rheoli Ystadau, Eiddo, Adeiladu, Peirianneg, Pensaernïaeth, Rheoli Cyfleusterau, Cynaliadwyedd, | Ff, C | H |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Arweinyddiaeth Fusnes neu ddisgyblaeth gysylltiedig. | | |
| | | 3.3 | Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus. | Ff, C | H |
| | | 3.4 | Aelodaeth siartredig o gorff proffesiynol perthnasol (e.e. MRICS, MCIOB, CEng, CIWFM, FRICS neu gyfwerth). | Ff, C | D |
| 4 | Profiad Perthnasol | 4.1 | Profiad sylweddol o arweinyddiaeth uwch neu weithredol o fewn amgylcheddau ystadau, seilwaith, adfywio, eiddo neu ddatblygiad cyfalaf sylweddol. | Ff, C | H |
| | | 4.2 | Profiad amlwg o arwain rhaglenni creu lleoedd, adfywio, datblygu dinesig neu drawsnewid seilwaith sydd wedi cyflawni buddion economaidd, cymdeithasol a chymunedol. | Ff, C | H |
| | | 4.3 | Profiad o reoli risgiau ac adnoddau cyllidebau gweithredol sylweddol. | Ff, C | H |
| | | 4.4 | Profiad o ddatblygu a rhoi strategaethau ystad hirdymor ar waith. | Ff, C | H |
| | | 4.5 | Profiad o sicrhau buddsoddiad a chyllid allanol. | Ff, C | H |
| | | 4.6 | Profiad o arwain newid sefydliadol a mentrau gwelliant parhaus. | Ff, C | H |
| | | 4.7 | Profiad o Reoli Contractau a chysylltiadau â Chyflenwyr. | Ff, C | H |
| | | 4.8 | Profiad cryf o reoli rhanddeiliaid a datblygu partneriaethau. | Ff, C | D |
| | | 4.9 | Profiad yn y sector addysg uwch neu'r sector cyhoeddus. | Ff, C | D |
| | | 4.10 | Profiad o ardaloedd arloesi, parciau gwyddoniaeth/STEM, canolfannau menter neu ddatblygiadau defnydd cymysg. | Ff, C | D |
| | | 4.11 | Profiad o adfywio seiliedig ar le a phartneriaethau dinesig. | Ff, C | D |
| | | 4.12 | Profiad mewn cynghori timau gweithredol a chyrff llywodraethu ynghylch penderfyniadau buddsoddi strategol ystadau a seilwaith. | Ff, C | H |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Gofynion Arbennig | 5.1 | Dealltwriaeth o bolisi Cymru, Safonau'r Iaith Gymraeg, cynaliadwyedd ac agendâu datblygu economaidd rhanbarthol. | Ff, C | D |
| **Dyddiad Adolygu** | | | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Allwedd** | **Dull Adnabod** | **Ff** | Ffurflen Gais |
| | | **C** | Cyfweliad |
| | | **P** | Prawf |
| | | **T** | Copi o Dystysgrifau |
| | | **Rh** | Cyflwyniad |
| | | **G** | Asesiad Grŵp |
| | **Pwysigrwydd** | **H** | Hanfodol |
| | | **D** | Dymunol |

